# Gofal a Lles – BSc (Anrh) (Gradd Atodol) (Amser-Llawn)

Mae'r flwyddyn atodol olaf hon yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ehangu cwmpas eu hastudiaeth ym maes Iechyd, Gofal a Llesiant i gynnwys archwilio a dadansoddi safbwyntiau Cenedlaethol a Byd-eang. Bydd modiwlau a addysgir yn galluogi archwiliad beirniadol o benderfynyddion ehangach llesiant ac iechyd, yr effaith ar lunio polisïau cymdeithasol a chynllunio strategol tymor hir ar gyfer darparu gwasanaethau ar draws sectorau. Mae cynnwys y modiwl yn amrywiol ac yn ddiddorol, gan ymgorffori dulliau addysgu, dysgu ac asesu arloesol a gynlluniwyd i ennyn brwdfrydedd ac ysbrydoli myfyrwyr.
Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

## Gofynion Mynediad

Mae'r rhaglen hon yn addas ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn gweithio o fewn y maes iechyd, gofal a llesiant cymunedol amrywiol neu sy'n dymuno ennill cymhwyster academaidd sy'n gwella opsiynau cyflogadwyedd ar lefel raddedig.
Ein nod yw adlewyrchu'r dull amlddisgyblaethol sydd ei angen yn y sector hwn a mynd ati i chwilio am ddarpar fyfyrwyr o gefndiroedd cyflogaeth/academaidd amrywiol.
Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer mynediad i'r cwrs hwn, rhaid i fyfyrwyr fod wedi cyflawni 120 credyd ar lefel 4 a 120 o gredydau ar L5 sy'n briodol i'r rhaglen atodol a gynigir.

## Rhagolygon Gyrfa

Nod y cwrs yw datblygu ymhellach y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth i raddedigion sy'n gofyn am arfer menter a chyfrifoldeb personol, gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy, a'r gallu i barhau â dysgu a datblygiad personol parhaus sy'n angenrheidiol ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector.
Gellir symud ymlaen i lwybrau gradd proffesiynol fel Nyrsio Iechyd Meddwl, Gwaith Cymdeithasol, Therapi Galwedigaethol, Addysgu neu drosglwyddo'n uniongyrchol i ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth mewn meysydd fel rheoli prosiectau yn y sector Gwirfoddol a'r Trydydd sector, gwaith Prawf, yr Heddlu, Gwaith Ieuenctid.

## Modiwlau’r cwrs

Gall modiwlau gynnwys:
• Polisi i Ymarfer: Cyd-Destun Cymreig
• Hybu Iechyd a Llesiant
• Safbwyntiau Iechyd Byd-Eang
• Dyfodol Gofal Iechyd
• Traethawd Hir

## Asesiad

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, tiwtorialau, trafodaethau a seminarau. Bydd asesu yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau megis cyflwyniadau llafar, adroddiadau ysgrifenedig, prosiect grwp ac astudiaeth annibynnol estynedig.

### DULL ASTUDIO
FT

### LLEOLIAD
Coleg Afan - 0330 818 8100

### HYD Y CWRS
1Y